# MYSTERIOUS AFAN CUDD

# FFERMIO YN YR OESOEDD CANOL



Mae'r miniatur tudalen-llawn hwn yn dangos pobl yn medi llafur, yn lloffa ac yn cynaefu yn dod o ffolio 8v o Sallwyr Fécamp, sy'n cynrychioli mis Awst yn y calendr. Sallwyr Fécamp, c. 1180. Llawysgrif (76 F 13), 160 x 125 mm. Delwedd trwy ganiatâd Koninklijke Bibliotheek, Den Haag. Parth cyhoeddus.

Roedd ffermwyr yn bwysig iawn ym mywyd yr oesoedd canol.

Cyn dyfodiad y Normaniaid yn 1066, roedd ffermydd Cymru wedi'u gwasgaru drwy'r wlad, a doedd y Normaniaid heb newid hyn.

Mewn llawer man yng Nghymru, a rhannau o Loegr, roedd ffermwyr yr oesoedd canol yn gallu defnyddio'r tir âr a'r dolydd, ac fel arfer yn rhannu'r rhain, ac ardaloedd o dir pori garw ar y ffridd a phorfeydd ar y mynyddoedd.

Roedd ffermwyr yn tyfu cnydau megis gwenith, rhyg, barlys a cheirch, ac hefyd pys a ffa i fwydo'r anifeiliaid ac i'w defnyddio fel gwrtaith. Roeddent yn tyfu llin i wneud lliain, ac yn cadw defaid, am eu gwlân, ar y dolydd a'r tir comin.

Roedd y caeau yn cael eu haredig tair gwaith; unwaith i droi'r sofl, yr ail waith i waredu'r ysgall a'r chwyn ac unwaith eto i'w baratoi i'w hau. Roeddent yn aml yn defnyddio gwymon môr fel gwrtaith i'w osod ar y tir.

Yr offeryn fferm mwyaf cyffredin oedd yr aradr blaen-metal i droi'r pridd, a'r oged i orchuddio'r hadau wedi iddynt gael eu hau. Byddai'r rhain yn cael eu tynnu gan ychen a cheffylau.

# MYSTERIOUS AFAN CUDD


Er bod ffermwyr y canol oesoedd yn gweithio'n galed iawn, roedd hi'n hawdd i'r cnydau gael eu difetha a byddai'r bobl yn mynd heb fwyd. Roedd ffermwyr yr oesoedd canol yn helpu ei gilydd er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud adeg aredig, hadu a chynaefu.

Roeddent yn malu'r grawn i flawd ac yn prosesu llin a gwlân yn y melinau dŵr. Mae olion un o'r rhain ar Fynydd Dinas.

Roedd angen arnynt lwc i dyfu eu cnydau. Yn yr haf roedd haul yn hanfodol os roedd y cnydau yn mynd i dyfu, ac fe allai glaw trwm ddifetha cynhaeaf. Gyda gormod o haul fe allai'r tir sychu. Pe byddai rhew yn y gwanwyn byddai'r hadau'n marw.

Byddai gan y pentrefi mwy o faint faerdref ('fferm y beili') a thai'r taeogion a oedd yn gweithio heb dâl, yn gyfnewid am ychydig o dir ffermio a phori. Roedd y tai mawr a'r ffermdai yn cael ei hadeiladu yn agos at yr eglwysi.

Text adapted from websites:
https://medievalbritain.com/type/medieval-life/occupations/medieval-farmer/ & https://bannau.wales/wp-content/uploads/Farmsteads.pdf



Gweithwyr Fferm y Canol Oesoedd – Llawysgrif o'r oesoedd canol yn cynnwys delwedd o lafurwyr ar fferm. Fécamp Psalter, c. 1180. Manuscript (76 F 13), 160 x 125 mm. Image courtesy of Koninklijke Bibliotheek, The Hague. Parth cyhoeddus.

mysterious AFAN cudd